# GER BRON YR ORSEDD HARDD SYDD FRY’
## [BEHOLD OUR GOD]

**PENNILL 1**
**Gerbron yr Orsedd hardd sydd fry'**
**mae un sy’n eiriol drosof fi -**
**yr archoffeiriad mawr yw Ef**
**sy’n pledio drosof yn y nef.**
**Mae f’enw ar ei ddwylo pur**
**a’r galon a ddioddefodd gur.**
**Tra saif mrenin yn y nef**
**all neb fy nhroi oddi wrtho Ef.**
**All neb fy nhroi oddi wrtho Ef**

**PENNILL 2**
**Pan demtia Satan f’enaid gwan**
**a’m calon euog yw ei gri**
**edrychaf fry a gweld yr un**
**a dalodd pris fy mhechod i**
**Gan i ‘Ngwaredwr fynd i’r groes**
**fy enaid gwan sydd nawr yn rhydd!**
**Mae’r Duw sy’n gyfiawn wrth ei fodd**
**i weld ei Fab a’m maddau i**
**i weld ei Fab a’m maddau i**

**PENNILL 3**
**Yr Oen a laddwyd nawr sy’n fyw,**
**fy mhur gyfiawnder, Arglwydd nef –**
**Y mawr ddinewid – Myfi Yw!**
**Brenin gogoniant ydyw Ef!**
**Yn un ag Ef ni threngaf fi,**
**a’i waed y prynwyd f’enaid drud.**
**Cuddiwyd fy mywyd ynddo fry**
**yng Nghrist fy Nuw a cheidwad byd**
**yng Nghrist fy Nuw a cheidwad byd**

Geiriau gwreiddiol gan Charitie Lees Bancroft (1841-1892), cerddoriaeth a geiriau amgen gan Vikki Cook. © 1997 Sovereign Grace Worship (ASCAP). Sovereign Grace Music, adran o Sovereign Grace Churches. Cedwir pob hawl. Gweinyddir yn fyd-eang ar www.CapitolCMGPublishing.com, ag eithrio’r DU, lle gweinyddir gan Integrity Music, rhan o deulu David C Cook.
www.SovereignGraceMusic.org